**LC279**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae’r Gorchymyn hwn yn cyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Mae adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i fabwysiadau cod ymddygiad, ac effaith adran 50(4)(b) yw galluogi darpariaethau’r cod enghreifftiol i gael eu pennu fel rhai y mae’n orfodol i’r awdurdodau perthnasol eu mabwysiadu.

### Rheol Sefydlog 11.5

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o’r Gorchymyn hwn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i awgrymu nifer o bwyntiau drafftio sydd bellach wedi’u cymryd i ystyriaeth.  Gan hynny, nid oes unrhyw faterion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Mehefin 2001